# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)576(FM) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, ar 24 Ionawr 2008

**At Jenny Randerson:**

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb y Prif Weinidog ar 15 Ionawr, cytunodd y Prif Weinidog i ofyn i mi baratoi ymateb ysgrifenedig ar fater y gwnaethoch ei godi. Roeddech yn gofyn a yw'r Cyfarwyddiadau Gwireddu Buddiannau sydd ar gael i awdurdodau lleol y flwyddyn ariannol hon yn ddigonol. Ar hyn o bryd, mae pedwar awdurdod lleol yn ceisio setlo eu hatebolrwydd o ran ôl-daliadau ac mae swyddogion yn cadarnhau'r manylion gyda'r awdurdodau lleol dan sylw.

Gan gymryd yn ganiataol y caiff y ceisiadau am Gyfarwyddiadau Gwireddu Buddiannau a dderbynnir eu cymeradwyo, bydd digon o gyfle i'w diwallu yn llawn. Os nad yw unrhyw un o'r awdurdodau hyn yn gallu diogelu setliad ar eu hatebolrwydd o ran ôl-daliadau yn 2007-08, yna mae'r awdurdod lleol yn gallu ailymgeisio yn ystod rownd nesaf y ceisiadau.

Mae Cyfarwyddiadau Gwireddu Buddiannau ynddo ei hun yn ddull effeithiol o ganiatáu i awdurdodau lleol fenthyg neu ddefnyddio eu derbyniadau cyfalaf eu hunain i dalu ôl-daliadau iawndal. Fel y cyfryw, nid yw'r Cyfarwyddiadau yn effeithio'n uniongyrchol ar Gyllideb Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, maent yn cyfrif tuag at Ofynion Benthyca'r Sector Cyhoeddus ac oherwydd hynny, maent yn cyfrif fel gwariant a reolir yn flynyddol y mae'r Trysorlys yn gyfrifol amdano.

## Gwybodaeth ychwanegol at y datganiad am Alphasteel yng Nghasnewydd a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Chwefror 2008

**At William Graham:**

Yn dilyn fy Natganiad Llafar ar Alphasteel yng Nghyfarfod Llawn 15 Ionawr, gofynnoch gwestiwn am y cyfraniadau cronedig a wnaed i Gynllun Pensiwn Alphasteel ac rwyf nawr yn ateb eich cwestiwn.

Mae gweinyddwyr Alphasteel wedi nodi bod yr holl gyfraniadau cronedig oedd i'r cynllun pensiwn wedi'i gwneud, ar wahân i'r taliad ar gyfer mis Rhagfyr. Dywed y gweinyddwyr y byddant yn unioni hyn.

Rwy'n cael ar ddeall y bydd gweinyddwyr Alphasteel yn cyfarfod â rheolwyr cynllun pensiwn y cwmni cyn hir. Ar ôl y trafodaethau hyn, disgwylir y bydd mwy o wybodaeth ar gael i aelodau'r cynllun.

Gobeithio bod yr eglurhad hwn yn lleihau eich pryderon.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)586(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008

**At Val Lloyd:**

Ar 15 Ionawr, yn ystod y sesiwn Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru, fe wnaethoch ofyn i mi pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn yng Nghymru. Fe wnaethoch ofyn cwestiwn pellach am y ffigurau yn Adroddiad Blynyddol yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2006-07, sef bod 61 y cant o'r ymchwiliadau i amddiffyn oedolion mewn cartrefi gofal yn ymwneud â chartrefi â gofal nyrsio, tra bod y cartrefi hyn ond yn cynrychioli chwarter y sector. Fe wnaethoch ofyn beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu ei wneud am hyn, ynghyd â darparwyr gwasanaeth a chomisiynau, ac addewais ysgrifennu atoch ar ôl cael cyngor gan y Prif Arolygydd.

O ran pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a'r nifer uwch yn gyfatebol o ymchwiliadau amddiffyn oedolion mewn cartrefi gofal, gwyddom o'r adroddiadau blynyddol i fonitro Amddiffyn Oedolion fod mwy o bryderon yn cael eu mynegi am bobl hŷn yn gyffredinol nag unrhyw grŵp arall, p'un a ydynt yn byw yn y gymuned neu mewn cartrefi gofal. Mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal â gofal nyrsio yn grŵp sy'n arbennig o agored i niwed, ac yn debygol o fod â chyflyrau corfforol lluosog a/neu'n eiddil eu meddwl. Erbyn hyn mae barn gliriach fod enghreifftiau o ofal gwael yn cael eu hystyried yn faterion Amddiffyn Oedolion. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn haws fel y gellir cynnal ymchwiliadau, tra'n flaenorol efallai na fyddai'r materion hyn wedi'u nodi neu wedi'u trin fel cwynion am y gwasanaeth yn unig.

O fewn y cyd-destun hwn byddaf yn gofyn i'r Prif Swyddog Nyrsio edrych ar gyfraniad staff nyrsio at ansawdd y rhan hon o ddarpariaeth cartrefi gofal ac ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i sicrhau bod eu rôl wrth sicrhau ansawdd uchel a gofal diogel yn bendant.

Fodd bynnag, nid oes un ateb yn unig yn mynd i sicrhau bod pobl hŷn sy'n agored i newid yn cael eu cadw'n ddiogel, ac mae'n rhaid defnyddio dull systemau cyfan. Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am arwain o ran amddiffyn oedolion. Mae angen iddynt gydweithio â nifer o gyrff, gan gynnwys gwasanaethau iechyd cymunedol, Ymddiriedolaethau GIG meddygon teulu, cyrff cofrestru a rheoleiddio nyrsys ac â Byrddau Iechyd Lleol fel comisiynwyr, a Chyngor Gofal Cymru, sydd oll â chyfrifoldebau dros gamau diogelu. Mae gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) rôl glir i ystyried a dorrwyd rheolau ac i weithredu'n unol â hynny. Mae gan AGGCC rôl glir hefyd i roi cyngor ar ddatblygiadau polisi, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gesglir ym mhob un o'i weithgareddau.

O fewn cyd-destun ehangach amddiffyn oedolion sy'n agored i newid, rydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau neu'n gweithio tuag at sicrhau bod ein polisïau a threfniadau eraill yn parhau i fod yn gadarn ac yn addas i fodloni galwadau amddiffyn oedolion yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn anffodus er nad yw cam-drin oedolion sy'n agored i niwed yn rhywbeth newydd, mae mwy a mwy o gydnabyddiaeth i'r broblem, yn rhannol oherwydd gwell trefniadau o ran adrodd, cofnodi a monitro, sy'n arwain at drafodaeth fwy agored ynghylch sut y dylid ymdrin â hyn. Unwaith eto cyfeirir at hyn yn Adroddiad Blynyddol ACCGG. Yng ngoleuni hyn ac ymchwil arall, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolion i adolygu'r ystod o bolisïau ar gyfer amddiffyn ein hoedolion sy'n agored i niwed a mesurau eraill a gyflwynwyd gennym i sicrhau eu bod yn briodol ac yn gadarn. Deallaf fod y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu gwneud cyhoeddiad llawnach am y Bwrdd Prosiect hwn yn y dyfodol agos.

**Gwybodaeth ychwanegol at ddadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2006-07 a gyhoeddwyd gan Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Chwefror 2008**

**At Jonathan Morgan:**

Yn fy sylwadau olaf yn nadl y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr, ynghylch Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer 2006-07, addewais roi atebion manwl i'r ACau hynny a oedd wedi gofyn cwestiynau penodol i mi nad oeddwn wedi'u hateb yn ystod y ddadl. Ar ôl edrych ar y cofnod, rwy'n credu mai sôn am ddau gwestiwn yr ydym, a ofynnoch imi yn ystod eich cyfraniad, ac rwy'n ysgrifennu atoch, felly, i ateb y cwestiynau hynny fel yr addewais.

Yn ystod y ddadl, fe dynnoch chi sylw at y cyfeiriad yn Adroddiad AGGCC at yr angen i gydweithredu'n fwy â'r sectorau preifat a gwirfoddol wrth gomisiynu a datblygu gwasanaethau. Fe ofynnoch sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati i wneud hyn a sicrhau rhyngwyneb cyffredinol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal, fe ofynnoch sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gwarchod urddas pobl hyn sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mewn ymateb i'ch pwynt cyntaf, yn ein strategaeth deng mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol "Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol", nodir comisiynu fel un o'r prif ffyrdd o newid pethau. Wrth y term 'comisiynu', rydym yn golygu cylch cyfan asesu anghenion cymunedol, cynllunio, caffael ac adolygu'r gwasanaethau a ddarperir. Ein hymrwymiad dechreuol yn y cyd-destun hwn yw paratoi fframwaith comisiynu newydd ar gyfer y sawl sy'n darparu'r gwasanaethau. Mae'r broses hon eisoes ar y gweill ac rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, y sectorau preifat a gwirfoddol, cynrychiolwyr defnyddwyr a gofalwyr a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol. Dyma fydd pedair thema bwysig y gwaith hwn:

- cynnwys darparwyr yn y broses asesu anghenion er mwyn gallu mynd i'r afael yn iawn â'r hyn sy'n berthnasol iddyn nhw wrth ddarparu gwasanaethau;
- gwella'r cysylltiadau rhwng comisiynwyr a darparwyr fel bod ymgysylltiad mwy ystyrlon na dim ond trafod ffïoedd ac felly cânt eu trin yn fwy fel partneriaid yn y model gwasanaeth cyhoeddus cynhwysol. Fel y gwyddoch, dyma un o egwyddorion sylfaenol polisi "Creu'r Cysylltiadau";
- datblygu rôl y 'trydydd sector' gwirfoddol fel eiriolwyr, gan gefnogi hunan-gymorth a darparwyr gwasanaethau;
- datblygu'r ffordd rydym yn caffael gwasanaethau drwy geisio modelu contractau sy'n adlewyrchu egwyddorion y Swyddfa Masnachu Teg a nodir yn ei hadroddiad ar gartrefi gofal i bobl hŷn a thrwy arallgyfeirio yn y ffordd rydym yn contractio gwasanaethau, gan geisio sicrhau mantais i bawb drwy rannu unrhyw risg gyda darparwyr a chefnogi darparwyr drwy'r pŵer prynu sydd gan awdurdodau.

Mae'r materion a godwyd gennych ynghylch y rhyngwyneb â gwasanaethau iechyd yn bwysig iawn ac rydym yn mynd i'r afael â nhw drwy sicrhau bod pob rhan o'r fframwaith comisiynu yn cydweithio â'i gilydd. Yn ogystal, mae Tîm "Creu'r Cysylltiadau" yn paratoi canllawiau cyffredinol ar gyfer comisiynwyr ar gyllidebau cyfun sy'n mynd y tu hwnt i'r trefniadau ffurfiol a nodwyd ar gyfer y maes hwn yn flaenorol. Mae Cynlluniau Peilot y Byrddau Gwasanaethau Lleol hefyd yn ystyried sut y gall sefydliadau lleol gydweithio'n fwy effeithiol ar draws y rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol.

Mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo gofal, mater a nodwyd gennych, efallai eich bod yn ymwybodol imi gomisiynu adolygiad annibynnol ar hyn y llynedd. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yr adroddiad yn barod cyn hir. Mae un agwedd ar yr adolygiad yn ystyried natur partneriaethau a'u heffeithiolrwydd wrth atal oedi. Byddaf yn edrych yn ofalus ar ei argymhellion er mwyn datblygu polisi ac arferion ymhellach ledled Cymru.

O ran urddas i bobl hŷn, mae hon yn egwyddor allweddol sy'n ganolog i'r "Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru" a'r "Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru". Mae urddas - fel un o Egwyddorion y CE - hefyd yn fater y mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith (Adran 25 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006), i Gomisiynydd Pobl Hŷn newydd Cymru ei ystyried fel rhan o'i rôl.

Ar 1 Hydref y llynedd, lansiais Raglen Weithredu ar Urddas y bydd angen ei hintegreiddio'n llawn wrth weithredu'r holl strategaethau a'r polisïau allweddol o ran iechyd a gofal cymdeithasol ac a ddatblygir dros gyfnod 3 blynedd. Mae ymgynghoriad helaeth ar sut i symud y rhaglen hon yn ei blaen newydd ddod i ben.

Mae'r rhaglen wedi dechrau gyda chyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled y GIG ym mis Ionawr a Chwefror, er mwyn codi ymwybyddiaeth a lefel dealltwriaeth o'r prif faterion sy'n ymwneud ag urddas, ac o'r safonau presennol a'r deunydd cymorth sydd ar gael. Mae copïau o lyfr gwaith hyfforddi ar urddas a gynhyrchwyd drwy astudiaeth gan yr UE ar urddas, ac a gydgysylltwyd gan Brifysgol Caerdydd, ar gael yn y digwyddiadau hyn. Y nod yw drafftio cynllun gweithredu ar urddas a pharch ar gyfer ymgynghoriad lleol ym mhob un o feysydd partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a chaiff hyn ei gydgysylltu drwy Gyfarwyddwyr Nyrsio Ymddiriedolaeth y GIG. Mae'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth yn dechrau yn y GIG i ddechrau, ond bydd yn ymestyn i'r sector gofal cymdeithasol o fis Ebrill eleni.

Hefyd, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau ym maes urddas yn ystod 2008-09, gan ymgysylltu â'r sectorau statudol, gwirfoddol, annibynnol, ymchwil academaidd a phroffesiynol drwy Grŵp Cydgysylltu Cenedlaethol. Bydd pobl hŷn a'u cynrychiolwyr yn cymryd rhan amlwg. Gwneir gwaith dilynol gyda hyrwyddwyr achosion pobl hŷn llywodraeth leol ac arweinwyr y "Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn" hefyd ar sail partneriaeth debyg. Bydd gwaith arolygu a datblygu gwasanaethau hefyd yn cynnwys y rhaglen ar urddas mewn gofal.

**Gwybodaeth ychwanegol at ddadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2006-07 a gyhoeddwyd gan Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Chwefror 2008**

**At Lynne Neagle:**

Yn nadl y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr ynghylch Adroddiad Blynyddol 2006-07 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ymrwymais i roi ateb manwl i bawb a gododd fater penodol.

Yn ystod y ddadl, fe gyfeirioch chi at Gartref Nyrsio The Beeches ym Mlaenafon, a ddatgofrestrwyd ac a gaewyd yn 2006, ac at gau Holly House yng Nghaerffili. Fe ofynnoch chi pa newidiadau sydd wedi bod ar y gweill ers hynny.

O ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos ag asiantaethau a sefydliadau eraill i ddatblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, yn nodi'n fanwl sut dylid delio â phryderon am safonau gofal neu berfformiad gwael mewn cartrefi gofal cofrestredig. Mae llawer o'r gwaith datblygu hwn, y tynnwyd sylw ato yn adroddiad blynyddol AGGCC, wedi'i wneud a dylai'r canllawiau drafft fod yn barod i ymgynghori arnynt yn nes ymlaen yn y mis. Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer delio â phryderon mewn cartrefi cofrestredig, rheoli contractau, materion yn ymwneud â chau cartrefi ac adleoli trigolion, a materion cysylltiedig eraill. Fe wnaf yn siŵr eich bod yn derbyn copi o'r ddogfen ymgynghori pan fydd ar gael.

Tra’n aros am y canllawiau hyn, rwyf ar ddeall bod Rhanbarth De-ddwyrain AGGCC wedi bod yn gwneud gwaith monitro anffurfiol gydag asiantaethau partner lleol i’w monitro ac yn ceisio gwella sefyllfaoedd sy’n destun pryder. Bu’r gwaith hwn yn llwyddiannus.

O fewn cyd-destun ehangach amddiffyn oedolion sy’n agored i niwed, rydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau, neu’n gweithio arnynt, i sicrhau bod ein polisïau a threfniadau eraill yn parhau’n gynaliadwy ac yn addas i ateb gofynion amddiffyn oedolion dros y blynyddoedd i ddod.

Er nad yw cam-drin oedolion sy’n agored i niwed yn ffenomen newydd yn anffodus, mae pobl yn gynyddol ymwybodol o’r broblem, yn rhannol yn sgil gwell trefniadau adrodd, cofnodi a monitro, sy’n arwain at drafodaeth fwy agored, yn gywir felly, ynghylch sut y dylid delio â’r peth. Unwaith eto, cyfeirir at hyn yn adroddiad AGGCC. Yng ngoleuni hyn ac adroddiadau ymchwil eraill, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Grŵp Prosiect i Amddiffyn Oedolion i adolygu ein holl bolisïau amddiffyn oedolion sy’n agored i niwed a mesurau eraill rydym wedi’u cyflwyno i sicrhau eu bod yn briodol ac yn gynaliadwy. Rwy’n bwriadu gwneud cyhoeddiad llawnach am y Bwrdd Prosiect hwn yn y dyfodol agos.

Ymhlith y mesurau eraill mae:

- y rhaglen ar Urddas a Pharch mewn Gofal a lansiais ar 1 Hydref y llynedd

- gweithredu deddfwriaeth Diogelu Grwpiau Agored i Niwed, a fydd yn ehangu’r gofyniad am wiriadau CRB i nifer fwy o’r gweithlu sy’n gweithio gydag oedolion sy’n agored i niwed neu sy’n dod i gysylltiad rheolaidd â nhw.

- rhoi’r Ddeddf Galluedd Meddyliol ar waith, sy’n cynnwys y drosedd newydd o gam-drin neu esgeuluso’n fwriadol berson nad yw’n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.

- pwerau newydd i AGGCC i atgyfnerthu cyfrifoldeb darparwyr dros ansawdd eu gwasanaeth, pwerau newydd i gefnogi AGGCC, dull cymesur o reoleiddio a chydymffurfio sy’n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae cais i roi pwerau gorfodi cryfach i AGGCC gerbron y Senedd.

- adolygiad o’r Rheoliadau a’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal a gyhoeddwyd gennym ar 15 Ionawr. Bydd hyn rhoi cyfle inni ystyried a oes angen gwneud mwy o newidiadau yn y fframwaith rheoleiddio i fynd i’r afael â cham-drin ac achosion cam-drin.

- cyflwyno dangosyddion perfformiad awdurdodau lleol ar ddiogelu oedolion sy’n ei gwneud yn bosibl cymharu perfformiad ledled Cymru.

- ymgynghoriad a gwblhawyd yn ddiweddar ar ehangu ein canllawiau “Mewn Dwylo Diogel” i wella’r trefniadau i atal achosion o gam-drin yn ariannol oedolion sy’n agored i niwed ac sy’n derbyn gwasanaethau gofal yn eu cartrefi eu hunain. Byddwn yn parhau i adolygu’r canllawiau hyn i sicrhau bod y ffocws cywir yn parhau a’u bod yn briodol.

- penodi Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru. Er mai mater i’r Comisiynydd fydd penderfynu ar ei blaenoriaethau ei hun, mae’n anochel y bydd cwestiwn cam-drin pobl hŷn yn uchel ar yr agenda, a bydd y Comisiynydd yn gallu ymchwilio i’r ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu’r trefniadau i ddiogelu oedolion.

- ym maes rheoleiddio ac arolygu, rydym wedi creu arolygiaeth AGGCC newydd sy’n gallu edrych ar ansawdd gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd, o gomisiynu i gontractio i gynllunio unigol, darparu gwasanaethau ac arweiniad a rheoli – y Cylch Gofal. Mae’r arolygiaeth

newydd, a’i ffocws 360 gradd ar ddarparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaethau, yn gallu cydlynu gwaith rheoleiddwyr cyfleusterau gofal unigol â gwaith gwerthuso perfformiad awdurdodau lleol yn flynyddol, ac adolygiadau thema o wasanaethau yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu adolygiad thema o’r trefniadau diogelu oedolion yn 2008/09.